# Gwneud astudio yn agored

**Mae'ch amcanion o fewn cyrraedd gyda hyd at £4,500 o gyllid tuag at gostau byw ar ein cyrsiau rhan-amser***

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Mae'r dyfodol yn agored.

Mae cymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru er mwyn i gost astudio beidio â'ch rhwystro rhag cyflawni eich nodau. Mae'r Brifysgol Agored wedi helpu dros 2 filiwn o fyfyrwyr i astudio o amgylch ymrwymiadau bywyd. Dyma sut gallem eich helpu chi hefyd.

## Cymorth gyda chostau byw

Gallwch dderbyn cymorth gyda'ch costau byw wrth astudio cwrs rhan amser gyda'r Brifysgol Agored. **Os ydych yn byw yng Nghymru, gallech dderbyn grant hyd at £4,500* y flwyddyn i'ch cynorthwyo**. Nid benthyciad yw hwn, felly ni fydd angen i chi ei ad-dalu. Mae hyn yn golygu mwy o gymorth i chi wrth i chi weithio'n galed at eich dyfodol newydd.

Gallech hefyd dderbyn benthyciad ffioedd dysgu i dalu am eich cwrs, gan wneud astudio rhan amser yn fforddiadwy.

## Arbenigwyr mewn dysgu o bell

Y Brifysgol Agored yw'r unig brifysgol yn y DU sydd wedi ymrwymo at ddysgu o bell, gyda dewis o dros 200 o gymwysterau. Byddwch yn dysgu ar-lein drwy amrywiaeth o ddarllen, fideos a gweithgareddau rhyngweithiol. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i chi ddewis i astudio lle bynnag, a phryd bynnag yr hoffwch. Mae ein hagwedd unigryw at astudio yn golygu **eich bod yn gallu gweithio o gwmpas eich swydd, teulu neu gyfrifoldebau eraill**. Yn wir, mae dros ddau draean o'n myfyrwyr yn cydbwyso astudio gyda gweithio.

## Mae'r dyfodol yn eich dwylo chi

Gallwch astudio'r rhan fwyaf o'n cyrsiau heb unrhyw gymwysterau blaenorol. Does dim ots beth rydych wedi astudio yn y gorffennol na phryd oedd y tro olaf i chi godi gwerslyfr. Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig cychwyn newydd i bawb.

Byddwch yn derbyn addysg o'r safon uchaf, gyda chymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan gyflogwyr ledled y wlad. **Mae 87% o'n cyn-fyfyrwyr yn dweud fod astudio gyda'r Brifysgol Agored wedi eu helpu nhw i gyflawni eu nodau gyrfa**.

## Byddwch yn derbyn yr holl gymorth sydd ei angen arnoch

**Nid yw dysgu o bell yn golygu eich bod ar eich pen eich hun.**

Gallwn eich cynorthwyo i ddewis y cwrs perffaith, a bydd eich tiwtor yn darparu adborth, arbenigedd ac yn ateb eich cwestiynau ar-lein neu ar y ffôn.

Byddwch hefyd yn rhannu syniadau gyda myfyrwyr eraill ar y cyfryngau cymdeithasol neu yn ein fforymau ar-lein.



"Gallwch astudio gartref. Gallwch astudio yn ystod eich amser rhydd. A gallwch wneud hynny oll wrth weithio hefyd."

**Candace Louison, Caerdydd**
yn astudio Rheolaeth Fusnes

**Mwy o wybodaeth**

**Chwiliwch** OU Cymru
**Sganiwch y** cod QR

***Mae rheolau cymhwysedd yn berthnasol ar gyfer cymorth ariannol.**

Ymgorfforir y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), sef elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Awdurdodir a rheoleiddir y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilradd o froceru credyd.